# LEWIS POWELL – yr hen gasglwr unigryw

## Gan MAIR ELVET THOMAS

DAETH i'm llaw yn ddiweddar, trwy lyfrgell newydd Dinas Cerdydd, ddwy gyfrol hunangofiant Lewis Powell (1788-1869), gweinidog cyntaf eglwys Ebeneser, Caerdydd (1827-1851), hithau'n eglwys gyntaf yr Annibynwyr Cymraeg yno.

Ar ddechrau rhifyn cyntaf yr hunangofiant hwn, dyddiedig Mehefin 7, 1851, ceir 'hysbysiad' mai oherwydd anogaeth merch o'r enw Margret Thomas, yn Llanymddyfri ymhell nôl yn 1827, yr ymaflodd o'r diwedd, ym mhumdegau'r ganrif, yn y gwaith o ysgrifennu hanes ei fywyd.

Arswydai wrth feddwl y byddai'n rhaid iddo ddefnyddio'r person cyntaf "a hynny yn ol ac yn mlaen". Ond ymgymerodd â'r gwaith gan gadw ei "bromish", a thrwy "Drugaredd a Gras" "i fanago y pen a'r inc".


Teitl cyfrol gyntaf yr hunangofiant yw *Hanes Bywyd y Parch. Lewis Powell, Caerdydd. Wedi ei ysgrifennu ganddo ef ei hun.* Ac ychwanegodd "(cyhoeddedig ar anogaethau)". Teitl yr ail yw *Hanes Bywyd y Diweddar Barch. Lewis Powell, Caerydd. Wedi ei ysgrifennu ganddo ef ei hun.* Ac ychwanegodd "Cyhoeddedig ar anogaeth amryw o'i frodyr".

Ychwanegwyd yn ogystal hanes ei farwolaeth a'i gladdedigaeth gan y Parch. J.M. Evans, ei drydydd olynydd ym mhulpud Ebeneser.

Gwerthwyd yr hunangofiant yn rhifynnau, 28 i gyd, heb fod yn eu trefn cronolegol, y rhai sengl yn dair ceiniog yr un a'r rhai dwbl yn chwe cheiniog. Ar gefn clawr y rhifyn cyntaf (1859) hysbysebir fod darlun o'r awdur ar gael, 'wedi ei gerfio ar *steel*' a'i bris swllt a chwe cheiniog pe bai 400 yn debyg o'i brynu.

Ond cyn bo hir gostyngwyd y pris i swllt a thair ceiniog os prynid rhifyn o'r hanes. Ar gefn y rhifynnau a argreffid gan Evan Walters, Caerdydd, y mae'r gosodiad hwn: fod yr argraffydd yn dymuno rhoi gwybod "nad yw ef yn gyfrifol am yr orgraff arferir yn y llyfr hwn, oblegid gorfodir ef i ddilyn dull yr awdwr o ysgrifenu, heb gyfnewid dim".

Argraffwyd cyfrol gyntaf yr hunangofiant gan yr un gŵr ond aethpwyd at J.T. Jones a'i Fab, Swyddfa'r "Tŵr", Aberdâr i argraffu'r ail. Gofynnid am i bob tâl am y rhifynnau fynd yn uniongyrchol at yr awdur ei hun a drigai yn 91 Frederick Street, tŷ o fewn ychydig o lathenni i Ebeneser. (Fel yr hen Ebeneser y mae'r tŷ, bellach wedi diflannu i roi lle i 'gynnydd a datblygiad'). Diolchai i bawb a wnâi hynny.



* * *

GANED Lewis Powell ym mhentref Defynnog, yr hen Sir Frycheiniog, Rhagfyr 27, 1788, i rieni a oedd yn aelodau yng nghapel bychan ond nid anenwog y Brychgoed. Addysgwyd ef gan weddw a'i merch ac yn ysgol gwbl Saesneg Eglwys Loegr, ym mhentref Defynnog, ac yn yr ysgol honno dioddefodd warth y 'Welsh Note' fel y gelwir ef ganddo.

Bu fy mam yn ddisgybl yn yr un ysgol tua diwedd y ganrif ddiwethaf. Yr oedd y 'Welsh Note' wedi diflannu ond y Saesneg o hyd oedd iaith addysg plant pentref cwbl Gymraeg, yn oedolion a phlant.

Gwehydd oedd tad Lewis Powell yn y cyfnod pan oedd Defynnog, fel pentrefi gwledig eraill Cymru, yn llawn o grefftwyr o bob math, ond i siop y crydd, ei ewythr, yr aeth ef i ddysgu ei grefft.

Yr oedd yn ddeunaw oed pan dderbyniwyd ef yn aelod yn Eglwys y Brychgoed gan ei weinidog, y Parch. Peter Jenkins, cyfaill i Bantycelyn. Bu am gyfnod byr yn athro i blant gŵr o'r enw Evan Price, ynghyd â phlant eraill o'r ardal. Cynhelid ef gan y gŵr hwnnw a dysgodd Roeg ganddo.

Yn 1812 fe'i trwyddedwyd i bregethu, ac yn 1813 urddwyd ef yn fugail ar eglwys Capel Isaac, Sir Gaerfyrddin. A dyna lle bu am bedair blynedd ar ddeg yn fawr ei barch a'i ddylanwad ac yn bregethwr cymeradwy a phoblogaidd ond gwahanol i'r cyffredin, ymhlith yr holl enwadau.

Un bore derbyniodd lythyr dyddiedig Gorffennaf 9, 1827, yn erfyn arno ddod i Gaerdydd "at achos yr Anymddibynwyr" yno a oedd"yn isel iawn, ar lawer o oblygiadau ac yn amddifad o weinidog'. Credent yn ffyddiog, pe caent un, yn ogystal â chael lle addas i addoli ynddo, y cynyddai eu nifer yn fuan.

Yn eglwys nodedig y Groeswen ar y pryd yr oedd gweinidog ymroddgar a dylanwadol iawn, Griffith Hughes, a fuasai eisoes yn gefn i'r eglwys fechan. Yr hyn a wnaeth Lewis Powell gyntaf, wedi iddo dderbyn y llythyr, oedd ymgysylltu â Griffith Hughes gan ofyn iddo mewn llythyr amryw gwestiynau ynglŷn â'r eglwys. Atebodd yntau hwy a gofyn i Lewis Powell am ddod i Gaerdydd a galw yn y Groeswen ar y ffordd.

Felly bu, a'r geiriau olaf a glywodd Lewis Powell gan Griffith Hughes ydoedd: "Er mwyn pob peth, deuwch i Gaerdydd, a'r Arglwydd a'ch llwyddo". O ganlyniad, wedi iddo bregethu i'r gynulleidfa yn ei hadeilad cwbl anaddas, fe dderbyniodd alwad swyddogol yn ddioed, wedi ei llofnodi gan bum diacon "a chwech ar hugain ereill", yn erfyn arno i ddod yn weinidog arnynt.

Yr oeddynt eisoes wedi pwrcasu darn o dir i adeiladu capel arno ac i fod yn gladdfa iddynt. Pan welodd Lewis Powell y fangre credai ei bod yn gwbwl anghyfleus "ac i maes o'r dre, ac heb dy yn agos, ac yn brid iawn", sef £840, tipyn o arian yn yr oes honno, bid siwr. Heb yn wybod i Lewis Powell, erbyn mis Medi yr oedd yr adeiladu wedi dechrau mewn llawn hyder ffydd er nad oedd ganddynt arian eu hunain i dalu amdano.

* * *

YR OEDD ei braidd yng Nghapel Isaac wedi rhybuddio Lewis Powell fel y byddai pethau yng Nghaerdydd a'i fod yn cymryd cam ffôl dros ben. "Nid yr un *climate* crefyddol yw hi yno ag y mae yma"; "Yr ydych yn rhyfygu; a ydych wedi colli eich *senses*? "Bydd cosp yn eich dilyn am adael y rhai a dderbyniasoch i'r eglwysi yn wylo ar eich ol". Cyfaddefa Lewis Powell ei hun na allai ei deimladau 'a godde i fi bregethu yr hyn a elwir yn Saesneg *Farewell Sermon*'.

Yn lle hynny cyfansoddodd 31 o benillion wyth llinell i ffarwelio â hwy ac argraffwyd miloedd o gopïau ohonynt.

Cychwynnodd ef a'i briod a'u teulu niferus o Gapel Isaac ddiwedd Medi, 1827, gan gymryd deuddydd i deithio, a dod i fyw ar y dechrau i Union Street yr oedd ychydig o'i thai am y wal â'r fynwent wrth ochr y capel. Cyn iddynt brin ymsefydlu yno daeth y "maeswn" at Lewis Powell i ddweud wrtho na allai barhau â'r gwaith am nad oedd yn cael ei dalu.

Ni syfrdanwyd y gweinidog newydd ac ni ffromodd. Yn hytrach nag atal yr adeiladu "cyfansoddwyd *Petishwn, sinodd* gweinidogion Shir Forganwg e. Aethym at weinidogion Shir Fynwe . . . ag fi eitho at amryw yn y dre i gasglu". Dyna gychwyn gyrfa ddihafal Lewis Powell fel casglwr tuag at achos Ebeneser ac achosion eraill.

Ym mis Hydref 1828 yr oedd yr adeilad wedi ei orffen a phob anhawster wedi ei orchfygu. Dyma bytiau o'r hanes am yr agoriad swyddogol ym mis Rhagfyr.

**Daeth pobl y dref a'r wlad yn garedig i weled eu cymmydog newydd a thalasant iddo bob parch . . . Gellir dweyd am y capel ei fod yn gyfleus ac yn hardd a bod pawb yn ei ganmol yn fawr; y mae y gangen ieuanc yn dychwelyd y diolch mwyaf gwresog i bawb am eu caredigrwydd a'i [sic] cymmorth i dalu y draul fawr a aeth i'w adeiladu . . . dioch i Iuddewon, i bobl Germany, i Bapistiaid am eu rhoddion.**

ac ar ddiwedd yr hanes y paragraff hwn:

**Er y cerdded a'r whysu, a'r gofyn, a'r pallu, a'r lludded, yr w i yn llawen am na raid i Ebenezer, na neb sy yn perthyn iddo, neyd bow i un o rhai ballodd. O mor dda gen i weyd, Agorwyd. Yr oedd rhai wedi marko y man iddi claddu cyn iddo gael ei agor.**

Fel casglwr aeth ati'n gwbl broffesiynol. Cariai lyfr cownt a llythyr neu lythyron cymeradwyaeth iddo ef ei hun a'r achos i ba le bynnag yr âi. Defnyddiai ei ddawn arbennig i "gocso" pobl i gyfrannu. Nid oedd byth yn gas pe gwrthodent. Yn lle hynny defnyddiai ei arabedd a'i natur dda, a'i athrylith i siarad mewn damhegion. Pwy a fentrai wrthod wedyn?

*(I dud. 15)*